

# SL(5)635 – Rheoliadau'r Cynllun Seibiant Dyledion (Moratoriwm Lle i Anadlu a Moratoriwm Argyfwng Iechyd Meddwl) (Cymru a Lloegr) 2020 (Cyflwynwyd yn Saesneg yn unig)

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn sefydlu cynllun seibiant dyledion ar gyfer pobl sydd â phroblemau dyled.

O dan y cynllun, caiff pobl gymwys sydd â phroblemau dyled ac sy'n cael cyngor proffesiynol ar ddyled gyfnod o 60 diwrnod pan fydd llog, ffioedd a thaliadau yn cael eu rhewi a bydd camau gorfodi yn destun saib. Yn aml, cyfeirir at y cyfnod moratoriwm hwn yn foratoriwm 'Lle i Anadlu'.

Mewn perthynas â phobl sy'n cael triniaeth ar gyfer argyfwng iechyd meddwl, mae'r cynllun yn sefydlu llwybr arall lle gellir cael mynediad at fesurau diogelu moratoriwm, ac yn sicrhau bod y mesurau diogelu ar waith drwy gydol eu triniaeth argyfwng.

## Gweithdrefn

Gwneir y Rheoliadau hyn gan y Trysorlys, ond rhaid eu gosod gerbron Senedd Cymru a dau Dŷ Senedd y DU, a'u cymeradwyo drwy benderfyniad ym mhob un o'r Senedd-dai hynny.

## Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Rydym yn nodi ac yn croesawu bwriad y Rheoliadau hyn, sef cymell mwy o bobl â phroblemau dyled i gael cyngor proffesiynol ar ddyled, ac i wneud hynny'n gynt, a'u galluogi hefyd i gael mynediad at y datrysiad dyled mwyaf priodol iddynt, o ystyried eu hamgylchiadau unigol.

Rydym hefyd yn nodi bod y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan y Trysorlys o dan Ran 1 o Ddeddf Canllawiau Ariannol a Hawliadau 2018, y rhoddodd y Cynulliad ei gydsyniad deddfwriaethol iddi ar 13 Chwefror 2018. Yn ystod y ddadl ar gydsyniad a gynhaliwyd gan y Cynulliad, dywedodd Rebecca Evans AS, y Gweinidog Tai ac Adfywio ar y pryd, y geiriau a ganlyn mewn perthynas ag unrhyw gynllun seibiant dyledion yn y dyfodol:

*"Mae ffordd bell i fynd, ond byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU a'r SFGB, pan gaiff ei sefydlu, yn ogystal â darparwyr cyngor a rhanddeiliaid eraill, i ddylanwadu ar ddatblygiad unrhyw gynllun a phenderfynu a yw'n diwallu anghenion Cymru."*

Byddem yn ddiolchgar pe gallai Llywodraeth Cymru:



- (a) nodi sut mae'r cynllun seibiant dyledion wedi cael ei ddatblygu i fodloni gofynion Cymru;
- (b) cadarnhau a yw'n fodlon nad yw'r Rheoliadau hyn yn dod i rym yn gyffredinol tan 4 Mai 2021.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

### Ymateb y Llywodraeth

*(a) nodwch sut y mae'r cynllun seibiant dyledion wedi cael ei addasu i fodloni gofynion Cymru:*

Ers 2018, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn cydweithio'n agos â Thrysorlys EM ar y polisi ar gyfer y cynllun seibiant dyledion. Bu swyddogion hefyd yn hwyluso digwyddiad yng Nghymru, lle roedd y rhanddeiliaid allweddol o Gymru yn rhoi adborth i wneuthurwyr polisi ar y cynigion ar gyfer y cynllun. Yn ychwanegol at hynny, anogwyd rhanddeiliaid drwy Gymru gan swyddogion a chan Rwydwaith Cyngori Cenedlaethol Cymru i ymateb i'r cynigion yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus gan Drysorlys EM.

Aseswyd y rheoliadau drafft ar gyfer y cynllun gan gyfreithwyr Llywodraeth Cymru a gwnaed gwelliannau i'r rheoliadau gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â deddfwriaeth Cymru. Mae swyddogion yn parhau i drafod â Thrysorlys EM ar gynhyrchu canllawiau a deunydd i sefydliadau dyled a gweithwyr iechyd proffesiynol.

Drwy gydol ein hymgyssylltiad, rydym wedi sicrhau bod y cynllun seibiant dyledion yn cyd-fynd ag anghenion penodol pobl yng Nghymru. Er enghraifft, rydym wedi dweud wrth Drysorlys EM fod yn rhaid i gynllun seibiant dyledion, os yw am fod yn effeithiol, olygu bod rhywun yn trafod â chynghorydd dyled proffesiynol a bod yn rhaid i'r amddiffyniadau sy'n cael eu cynnig gan y cynllun gwmpasu ystod eang o ddyledion a pheidio ag eithrio dyledion cyhoeddus. Cytunodd y llunwyr polisi a bydd pobl yng Nghymru sy'n defnyddio'r cynllun yn elwa ar gael cyngor proffesiynol ar ddyledion a mesurau amddiffyn mewn perthynas â ddyledion cyllid personol, dyledion aelwydydd a dyledion sy'n ddyledus i lywodraeth ganolog a llywodraeth leol.

*(b) cadarnhau a ydynt yn fodlon na fydd y Rheoliadau hyn yn dod i rym yn gyffredinol tan 4 Mai 2021:*

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod cael cymorth i bobl sy'n cael trafferth gyda dyled yn bwysig ac mae'n siomedig bod y cynnydd o ran datblygu'r cynllun seibiant dyledion wedi'i ohirio ar ddau achlysur. Yn gyntaf oherwydd Etholiad Cyffredinol 2019, ac yn ail oherwydd dechrau pandemig Covid-19 ym mis Mawrth.



Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi bod llawer o waith i'w wneud eto ar y prosesau gweithredol sy'n angenrheidiol er mwyn gweithredu'r cynllun ac y bydd hyn yn waith heriol, yn enwedig i'r rhanddeiliaid allweddol sydd hefyd yn delio â llawer o effeithiau yn sgil pandemig Covid-19.

Er y byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ffaith bod y cynllun seibiant dyledion yn cael ei weithredu cyn 4 Mai 2021, mae'n bwysicach, pan gaiff y cynllun ei weithredu, ei fod yn gweithio'n iawn gyda'r holl fesurau amddiffyn yn eu lle. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn derbyn mai'r dyddiad gweithredu, sef 4 Mai 2021, yw'r dyddiad cynharaf ar gyfer gweithredu cynllun seibiant dyledion yn gyflawn.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 2 Tachwedd 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

